



CYNLLUN RHEOLI TIROEDD

2021

Campws Singleton



Prifysgol Abertawe
Swansea University

Ystadau a Rheoli Cyfleusterau
Estates and Facilities Management

Hanes a Threftadaeth Prifysgol Abertawe.....	3
Lleoliad Campws Singleton Abertawe.....	4
Tir Campws Singleton.....	4
Adran Diroedd Prifysgol Abertawe	5
Dôl yr Abaty.....	7
Ffawna	8
Nodweddion Synthetig.....	8
Prosiectau Tirlunio a Garddwriaethol	9
Prosiect Tyfu'r 'Trawstiau'.....	11
Llwybr Cerdded Coetir yr Ardd Fotaneg.....	15
Tomennydd Cynefin:.....	19
Yr Oracle.....	20
Perllan Neuadd Breswyl Horton.....	25
Grŵp Bioamrywiaeth Prifysgol Abertawe.....	26
Grŵp Gwirfoddoli Cadwraeth Myfyrwyr.....	26
Lleihau'r defnydd o chwynladdwyr a gwrtaith artiffisial.....	26
Gweithgaredd a Chyfleusterau.....	26
Amwynderau.....	27
Arwyddion a Hysbysfyrddau.....	27
Diogelwch, Diogeledd a Glendid.....	27
Diogelwch.....	27
Goleuadau Stryd.....	28
Hygyrchedd.....	28
Graeanu a Chlirio Eira.....	28
Darpariaeth Symud Sbwriel.....	28
Cynnal Nodweddion Dŵr.....	28
Pyllau.....	28
Ffynhonnau.....	30
Dŵr Glaw.....	35
Fandaliaeth ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.....	35
Cynhaliaeth ac Adnoddau.....	36
Staffio.....	36
Peiriannau a'r Weithdrefn Cynnal a Chadw Peiriannau.....	37
Coedyddiaeth.....	37
Adeiladau.....	37
Abaty Singleton.....	37
Tŵr Vivian.....	38
Adeiladau: Athrofa'r Gwyddorau Bywyd.....	39
Llwybrau Cerdded.....	40

Celfi Stryd.....	40
Meinciau.....	40
Biniau Sbwriel.....	40
Ymylon Gwelyau Blodau	40
Arwyddion.....	40
Lleoliadau Arwyddion	41
Lleoliad 1: Tŷ Ymlusgiaid y Gerddi Botaneg	41
Lleoliad 2: Pwll Tŵr Vivian.....	43
Lleoliad 3: Yr Abaty.....	45
Cynhaliadwyedd Amgylcheddol.....	47
Polisi Cynhaliadwyedd a Rheoli.....	47
Strategaeth Ddŵr.....	48
Cludiant a Beicio.....	48
Gwastraff y Tiroedd a Chompostio	49
Rheoli Gwastraff Safleoedd Adeiladu	49
Ailgylchu.....	49
Rheoli Tiroedd yn Gynaliadwy – Plaladdwyr a Phryfleiddiaid.....	49
Gwrthteithwyr.....	50
Chwynladdwyr.....	50
Mawn.....	50
Cynhyrchu Bio-màs.....	50
Treftadaeth a Chadwraeth.....	50
Datblygu Coridor Bywyd Gwyllt.....	50
Gorchmynion Cadw Coed.....	51
Cymuned a Marchnata	52
Mynediad a Chyfranogiad Cymunedol	52
Theatr Taliesin.....	52
Prosiect Tyfu'r 'Trawstiau'	53
Gweithgareddau Tiroedd i Ysgolion Cynradd	53
Partneriaethau.....	53
Achredwyr.....	53
ISO20121.....	53
Cynllun Gwobrwy Cynaliadwyedd a Lles.....	54
Gwobr Safon Iechyd Corfforaethol.....	54
Gwobr Abertawe yn ei Blodau.....	55
Prosiect Ymgysylltu.....	57
Gwirfoddoli.....	57
Astudiaeth Achos: 'Sesiynau Rhagflas' Profiad o'r Tiroedd.....	58
Cyhoeddiadau Canllawiau a Gwefannau.....	60
Cynllun Gweithredu Campws Singleton 2020 – 2021.....	60

HANES A THREFTADAETH PRIFYSGOL ABERTAWE

Gosododd Brenin Siôr V garreg sylfaen y Brifysgol ar 19 Gorffennaf 1920, ac yn y flwyddyn honno, cofrestrodd 89 o fyfyrwyr. Erbyn mis Medi 1939, roedd y niferoedd wedi cynyddu i 485 o fyfyrwyr a 65 aelod o staff. Erbyn 1947, roedd y campws yn cynnwys dau adeilad parhaol yn unig, sef Abaty Singleton a'r Llyfrgell. Roedd y pennaeth ar y pryd, J.S. Fulton, yn cydnabod yr angen i ehangu'r campws i fod yn gymuned hunangynhwysol. Hynny yw, roedd angen cyfleusterau academiaidd a phreswyl ar yr un safle. Arweiniodd y weledigaeth hon at yr hyn a fyddai'r campws prifysgol cyntaf yn y Deyrnas Unedig.



Cafodd adeiladau'r neuaddau preswyl newydd, y tyrrau Mathemateg a Gwyddoniaeth a Thŷ'r Coleg (a alwyd yn Dŷ Fulton yn hwyrach) eu hadeiladu fel rhan o raglen ddatblygu ar raddfa fawr a gwblhawyd ar ddiwedd y 1960au.

Ym 1984, agorodd Canolfan Celfyddydau Taliesin ar y campws, ac adleolwyd yr Ysgolion Nyrsio Rhanbarthol ym 1992, gyda'r Coleg Meddygaeth yn agor yn 2001.

Cwblhawyd Adeilad y Techniwm Digidol yn 2005, a dwy flynedd yn ddiweddarach, fe'i dilynwyd gan y Sefydliad Gwyddorau Bywyd, a chwblhawyd ail Sefydliad Gwyddorau Bywyd hefyd yn 2011.

Yn 2020, mae'r Brifysgol yn dathlu ei chanmlwyddiant, ac mae ei phortffolio erbyn hyn yn cynnwys sawl ased gwerthfawr iawn, megis adeiladau hanesyddol a rhestredig, y mae'n falch iawn ohonynt. Yn draddodiadol, mae wedi cymryd ymagwedd gyfannol a thrylwyr at ddatblygu cadwraeth, gan geisio deall yr holl ffactorau amrywiol sy'n gwneud adeiladau hanesyddol yn bwysig i'w rhanddeiliaid amrywiol, a chan ddefnyddio hyn i lywio newid angenrheidiol. Mae'r Brifysgol yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol a CADW i sicrhau bod unrhyw addasiadau i'r adeiladau'n cyd-fynd â gofynion prifysgol fodern a'u bod yn briodol i'w natur hanesyddol. Mae'r Cynllun Cadwraeth hwn yn cynrychioli parhad y traddodiad hwn o geisio deall yr hyn sy'n gwneud adeiladau'r Brifysgol yn asedau gwerthfawr, a chwilio am ffyrdd o gadw'r nodweddion pwysicaf hyn er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Rhoddodd Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chynnal cofrestrau statudol o barciau a gerddi hanesyddol Cymru. Ym mis Medi 2019, cafodd pwysigrwydd hanesyddol Abaty Singleton a'r Gerddi Botaneg

ar Gampws Singleton ei gydnabod yn briodol a chawsant eu cynnwys yn y gofrestr statudol. Mae'r gofrestr statudol newydd yn disodli'r hen gofrestr anstatudol a lansiwyd ym 1994 ac mae wedi tyfu i gynnwys bron 400 o safleoedd ledled Cymru.

Lleoliad Campws Singleton



©Prifysgol Abertawe

TIR CAMPWS SINGLETON

Yn gyffredinol, mae tiroedd y Brifysgol yn cynnwys wynebau caled, gwastad a synthetig. Er eu bod yn berygl bythol-bresennol, nid ystyrir llifogydd yn brif bryder o ganlyniad i safle ar oledf y campws. Er gwaethaf hyn, mae hanes o lifogydd yn y gorffennol o ddŵr ffo sy'n llifo o Barc Singleton cyfagos gan ei fod yn creu twmffat i ddŵr glaw lifo tuag at y campws. Mapiwyd draenio dŵr yn rhannol ar y campws a rhoddwyd rhaglen waith ar waith i sicrhau y caiff yr hyn sy'n weddill ei gwblhau fel rhan o System Rheoli Amgylcheddol y Brifysgol. Mae rhan o'r system hon wedi amlygu'r angen i sicrhau nad yw llygredd yn cyrraedd cyrsiau dŵr lleol. O bryd i'w gilydd cynhyrchir symiau bychan o wastraff ymbelydrol lefel isel gan adrannau ymchwil yn y Brifysgol, a gwaredir y rhain yn y garthffos dŵr budr, o dan awdurdodaeth Asiantaeth yr Amgylchedd. Golyga sawl mesur deddfwriaethol newydd fod gan y Brifysgol, yn ei rhinwedd fel corff cyhoeddus, ddyletswydd i gydymffurfio â Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (NERC) yn ogystal ag â

deddfwriaeth a chanllawiau eraill, megis Strategaeth Amgylcheddol Cymru a Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol sy'n cynnwys deddfwriaeth i amddiffyn bywyd gwylt, megis ystlumod a moch daear.

ADRAN DIROEDD PRIFYSGOL ABERTAWE

Dylunnir tiroedd Prifysgol Abertawe_ ac fe'u cynhelir gan staff tiroedd mewnol.

Gan ei fod wedi'i leoli mewn parc, mae campws Abertawe, sy'n 47 erw, yn agos i ganol y ddinas a thraeth tywodlyd. Mae tiroedd Campws Singleton wedi'u sefydlu'n dda ac maent yn darparu amrywiaeth eang o gynefinoedd gyda glaswelltir, coetir aeddfed, ardaloedd wedi'u plannu a phyllau, sy'n helpu i gefnogi amrywiaeth eang o fywyd gwyllt sy'n hybu lles myfyrwyr, staff ac ymwelwyr.

Mae gwaith cynnal a chadw ar y safle'n cynnwys torri gwair, chwynnu, tocio llwyni a choed, arddangosfeydd o flodau yn yr haf, casglu sbwriel, dyfrio a rheoli coetir. Gwneir hyn gan y Tîm Tiroedd.

Caiff y tiroedd eu cynnal mewn ffordd sydd fwyaf cefnogol i'r amgylchedd â phosib.

- Ni ddefnyddir rheoli chwyn ychwanegol i ardaloedd a dirluniwyd.
- Defnyddir a chynhyrchir llwydni sglodion pren ar y safle cyn eu defnyddio ar welyau llwyni i osgoi defnyddio chwynladdwyr a lleihau'r angen i ddyfrio yn yr haf oherwydd ei fod yn cadw lleithder oddi tano.
- Caiff gwastraff gwyrdd ei greu o ddail, toriadau gwair, a thoriadau o lwyni sy'n cael eu compostio ar y safle er mwyn eu hail-ddefnyddio o amgylch safleoedd y Brifysgol.
- Lle bo'n bosib, defnyddir deunyddiau lleol ar bob prosiect tirlunio.
- Rhoddir blaenoriaeth i warchod a gwella cynefinoedd gwerthfawr presennol.
- Ceir arwyddion esboniadol ger cynefinoedd gwerthfawr.
- Caiff cynefinoedd naturiol eu gwarchod drwy adael coridorau bywyd gwyllt ger nentydd ac ymylon coetiroedd.
- Ni wneir trin coed yn ystod tymor nythu adar.
- Mae tomennydd cynefin a grëwyd o amgylch y campws yn cynnig ffynhonnell bwyd, lloches a lle ar gyfer gaeafgws.
- Mae blychau adar ac ystlumod wedi'u gosod mewn lleoliadau cyfleus ar draws y campws.
- Mae cynlluniau plannu'n cynnwys amrywiaeth o blanhigion, coed a llwyni, gydag adegau blodeuo amrywiol i annog gweithgarwch bywyd gwyllt drwy gydol y flwyddyn.
- Plennir planhigion lleol drwy ddefnyddio cyfrwng tyfu di-fawn.
- Mae peiriannau cadw a chynnal y tiroedd a bwerir gan fatris wrthi'n cael eu cyflwyno gam wrth gam i leihau allyriadau.
- Cynghori a gweithio gyda'r timoedd Prosiectau a Chynaliadwyedd a grwpiau o wirfoddolwyr.

Mae'r cyfuniad hwn o goetiroedd naturiol ac egsotig yn datblygu ymhellach fioamrywiaeth a swyn tiroedd y campws.

Mae amrywiaeth eang o llwyni a phlanhigion ar Gampws Singleton, ac mae llawer ohonynt yn blanhigion tyner neu sy'n goddef amodau hallt, sy'n ffynnu yn yr hinsawdd hon. Lle bydd ymylon wedi goraeddfedu ac wedi tyfu y tu hwnt i'r ardal sydd ar gael, caiff y llwyni naill ai eu hadnewyddu drwy eu tocio'n sylweddol, gan ddibynnu ar oddefgarwch y rhywogaeth o ran camau o'r fath ac ail-ddylunnir ac ail-blannir ardaloedd yn ôl yr angen.

Mae gan y Campws amrywiaeth gyfoethog o ffawna, ac mae llawer ohono wedi dod i'r Campws o bedwar ban byd. Mae gan y Brifysgol leoliad delfrydol sy'n ein galluogi i dyfu amrywiaeth eang o blanhigion, ac mae llawer ohonynt yn fregus iawn. O ganlyniad i agosrwydd y Campws i'r môr, dewisir llawer o'r planhigion, y llwyni a'r coed am eu goddefgarwch o ran cyflyrau hallt. Mae'r Tîm Tiroedd wrthi'n adfer yr Ardd Fotaneg restredig, gan gynnwys y Tŷ Ymlusgiaid a'r Pergola, i'w hen ogoniant.

Tŷ Ymlusgiaid y Gerddi Botaneg.



Paul Edwards 2021

DOL YR ABATY

Dôl Abaty Singleton



© Prifysgol Abertawe

Mae'r ardal yn cynnwys y borfa restredig heb ei thrin yn bennaf, mewn llac twyni ac ardal system llifogydd twyni. Defnyddir arferion torri gwair effaith isel er mwyn peidio â tharfu ar yr ardaloedd cors yng nghanol y borfa sy'n gartref i amrywiaeth fawr o loynnod byw, chwilod a gweision y neidr, yn ogystal â llygod maes a hwyaid sy'n nythu. Mae'r arfer hwn yn cynorthwyo wrth warchod darn bach ond tameidiog iawn o system twyni nad yw wedi'i llyncu a'i colli i ddatblygiad trefol, yn ffodus iawn.

FFAWNA

Lleolir cychod gwenyn mewn ardal dawel o'r neilltu yn ochr ddeheuol adeilad Wallace, sydd ei hun ar ffin Gardd Fotaneg restredig y Brifysgol. Pan fydd y gwenyn preswyl yn peillio'r planhigion a'r llwyni ar y Campws, rhagwelir y gallai'r planhigion anghyffredin sy'n peillio yn yr ardd arwain at greu blas unigryw o fêl. Hyd yma, mae chwe chwch gwenyn, y mae aelodau o staff y Brifysgol yn berchen ac yn gofalu amdanynt. Gweler llwynogod a draenogod yn aml ar y Campws, ac mae tystiolaeth o ddyfrgwn sy'n mynd heibio ambell waith, yn ogystal ag amrywiaeth o adar, mamaliaid, amffibiaid, trychfilod ac ymlusgiaid.

NODWEDDION SYNTHETIG

To Bywllys y Sefydliad Gwyddorau Bywyd 1



Paul Edwards 2020

Mae gan do ILS (y Sefydliad Gwyddorau Bywyd) ar ei flaenlun deheuol 'Do Bywllys', ac er ei fod yn gymharol fach, mae'n cefnogi ac yn annog amrywiaeth o flodau a phlanhigion yn yr ardal.

PROSIECTAU TIRLUNIO A GARDDWRIAETHOL

Mae'r Tîm Tiroedd yn datblygu ac yn addasu ei arferion gweithio i gefnogi ac annog bioamrywiaeth o amgylch adeiladau preswyl ac academiaidd y Campws. Er enghraifft, mae tomennydd o foncyffion sy'n deillio o goed a dorwyd o amgylch y campws o ganlyniad i archwiliad coed blynyddol wedi cael eu huwchgylchu i ffurfio tomennydd cynefin i greaduriaid di-asgwrn-cefn. Mae'r defnydd o chwynladdwyr wedi cael ei leihau'n fawr drwy gydymffurfio'n llym â rhaglen daenellu 'wedi'i dargedu' minimal. Mae gan y dull hwn effaith lai ar yr amgylchedd gan ei fod yn targedu chwyn yn hytrach na thaenellu 'cyffredinol' ac mae'n cynyddu poblogaethau rhywogaethau/anifeiliaid di-asgwrn-cefn y byddai taenellu cyffredinol yn cael effaith niweidiol arnynt fel arall. Ni ddefnyddir chwynladdwyr ar unrhyw un o welyau'r llwyni ar y campws. Yn hytrach, defnyddir sglodion pren, cardbord a llwydni dail a gynhyrchir o ddeunydd a grëir ar y cwrpas, a gaiff ei ddefnyddio fel gwellt, sy'n lleihau tyfiant chwyn ac yn cadw lleithder yn ystod cyfnodau sych.

Cilfachau Compostio a Sglodion Pren



Paul Edwards 2019

Yn gyntaf, gosodir haenau o gardbord dros ardaloedd sy'n peri problemau, megis y rhai hynny sy'n llawn Garleg Gwyllt *Allium Ursinum*, sy'n enwedig o gyffredin yn yr Ardd Fotaneg. Yna, rhoddir llwydni dail neu sglodion pren uwchben, sy'n cuddio'r golau'n gyfan gwbl. Mae'r dull hwn wedi bod yn ffordd amgen lwyddiannus wrth fynd i'r afael â phlanhigion sy'n rhy niferus yn hytrach na defnyddio chwynladdwyr, sy'n tueddu arwain at ganlyniadau di-bwys ta beth.

Garlleg Gwyllt Allium Ursinum



rhs

Gorsaf Fetrolegol



Paul Edwards 2020

Mae arferion cynaliadwy'r Tîm Tiroedd yn parhau i ddatblygu. Er enghraifft, mae'r Tîm bellach yn defnyddio dulliau "di-fawn" pan fydd angen cyfrwng tyfu. Adeiladwyd cilfachau compostio pwrpasol ar y Campws â'r nod o roi'r gorau i brynu pridd tyfu wedi'i becynnu yn gyfan gwbl, gan eu bod oll yn lleihau'r galw am ddeunydd plannu carbon uchel, gan gefnogi'r defnydd o fawn fel sinc carbon. Caiff naw deg y cant o lawntydd llai'r campws eu torri gyda thorwyr gwaith 'darnau man' a ddyluniwyd i dorri'r toriadau a'u gadael yn uniongyrchol ar yr ardal sy'n cael ei thorri. Mae'r system hunanffrwythlonni hon yn lleihau'r galw am gyllideb tir wrth ar yr un pryd leiafu effaith nitrad artiffisial mewn dŵr ffo yn yr amgylchedd. Defnyddir pren sy'n deillio o'r campws ac sy'n ganlyniad torri coed adferol gan y Tîm Tiroedd nid yn unig i greu gwelyau wedi'u codi lle mae llinellau ffiniol wedi achosi treuliant gormodol ond hefyd i greu bolardiau traffig pren. Defnyddir yr adnodd hwn ar draws y campws, gan ei fod yn llawer mwy hardd yn esthetig na choncrit, ac mae'n cynnig ffynhonnell fwyd i'r adar sy'n bwyta trychfilod sy'n bwyta'r pren sy'n pydru'n araf.

Gwely cornel boncyff wedi'i godi



Paul Edwards 2019

PROSIECT TYFU'R 'TRAWSTIAU'

Prosiect tyfu ar waith 1

Singleton Campus The Sleepers Growing Project



Swanseed - sustainability programme focused on food and wellbeing. Created in 2019 through community benefits funding by the Estates and CR team with support of contractor affiliates Graham FM, Veolia and Prosser Plant Hire.

Engages students, staff and local community with environmental issues, particularly those associated with food and provides a sense of community and wellbeing. Supports the Student HEAR Sustainability Award.

Groundworks/Civil Engineering/Construction & Demolition

© Prifysgol Abertawe

Prosiect tyfu ar waith 2

Proposal

- Collaboration of University Estates and Facilities Management, Contractors, Colleges and Corporate Responsibility team supported by Community Benefits Funding.
- Creating a space at Bay campus facilitating community growing area benefiting the local community of staff and students supporting sustainability and wellbeing.
- Raised beds

Current Status

- No campus student growing area
- Proposed location underutilised
- Surveys of staff and student wellbeing at the Bay campus identify a need to improve community spirit and infrastructure for mental wellbeing.



SwanseaSWell 

swansea.ac.uk/sustainability 

sustainability@swansea.ac.uk 


© Prifysgol Abertawe

Gyrwyr



© Prifysgol Abertawe

Rhanddeiliaid Tyfu ar y Campws



© Prifysgol Abertawe

Mae'r Tîm Tiroedd yn cynnal ac yn cadw, a hefyd yn creu, amgylcheddau amrywiol ar y Campws i annog a chynyddu amrywiaeth fawr o fflora a ffawna. Mae'r rhain yn cynnwys pyllau, coetiroedd, glaswelltiroedd, ymylon blodau, llwyni aeddfed ac ardaloedd o flodau gwyllt. Plannwyd cymysgedd hadau blodau gwyllt 'Porfeydd Prydferth' mewn ardaloedd o flodau gwyllt. Caiff yr ardaloedd hyn eu torri unwaith y flwyddyn, gan adael y deunydd a dorrwyd yno i sychu a dosbarthu hadau. Defnyddiwyd ardal anffrwythlon â lefel isel addas o faetholion i greu porfa o flodau brodorol rhwng neuaddau preswyl. Mae'r cymysgedd hadau a ddefnyddir yn cynnwys tua 26 o rywogaethau sy'n blodeuo o uchderau amrywiol, gan gynnwys y pabi (*Papaver rhoeas*), Penlas yr Yd (*Centaurea cyanus*), Tafod y Fuwch (*Borago Officinalis*) a Barf yr Afr (*Aruncus ioicus*). Gan fod y tymor blodeuo rhwng mis Mai a mis Hydref, maent oll wedi'u cydnabod yn blanhigion arbennig i beillwyr megis gwenyn a gloënnod byw, wrth hefyd annog amrywiaeth ehangach o drychfilod i'r safle.

Ardal o flodau gwyllt y tu ôl i Neuadd Breswyl Horton



© Prifysgol Abertawe

Blwch nythu yn yr Ardd Fotane



Paul Edwards

Mae'r Tîm Tiroedd hefyd wedi gosod blychau adar ac ystlumod o amgylch y campws. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu defnyddio fel y bwriadwyd. Fodd bynnag, gwyddys fod rhai ohonynt wedi bod yn gartref i gacwn a gwenyn.

Cafodd y cynlluniau am Ardd Fotaneg restredig eu llunio'n wreiddiol gan y fotanegwraig arloesol o Brydain a Deon y Gyfadran Gwyddoniaeth, yr Athro Florence Annie Mockeridge, a ymddeolodd ym 1954 cyn cwblhau'r prosiect. Dr Herbert 'Bertie' Street a fu'n olynydd i'r Athro Mockeridge, gan ddylunio cynllun terfynol yr ardd a goruchwylio'r broses o'i chreu.

LLWYBR CERDDED COETIR YR ARDD FOTANEG

Nid oedd yr ardal hon yn cael ei defnyddio llawer o ganlyniad i fannau isel ar y llwybr a oedd yn agored iawn i lifogydd lleol. Fodd bynnag, aeth gwaith adfer grŵp gwirfoddol o fyfyrwyr i'r afael â'r broblem. Yn ogystal â'r llwybr cerdded gwreiddiol drwy'r goedwig, mae dau lwybr rhyng-gysylltiol sy'n arwain at ddôl yr Ardd Fotaneg wedi'u creu, gan nacáu'r ffau llwynogod a sawl tomen cynefin.

Llwybr cysylltu coetir newydd (Gorllewin)



Paul Edwards 2019

Llwybr cysylltu coetir newydd (Dwyrain)



Paul Edwards 2019

Newidiodd arferion torri gwair dŏl yr Ardd Fotaneg yn 2017 fel nad yw'n cael ei thorri yn ei chyfanrwydd mwyach. Yn lle hynny, torrwyd llwybrau troellog drwyddi sy'n croesi â Llwybrau Coetir rhyngysylltiedig. Ceir clychau gleision brodorol a Sbaenaidd ar hyn ymylon y llwybr coetir ac ers 2017, mae rhaglen tynnu'r rhai Sbaenaidd wedi annog cynnydd yn y rhywogaethau brodorol drwy leihau'r posibilrwydd o groesi.

Ymyl Llwybr y Coetir.



Paul Edwards

Cafodd pren o goed a dorwyd ar y campws ei uwchgylchu i greu man ymgynnull cylchog anffurfiol yng nghanol y ddôl sy'n hygyrch drwy lwybrau newydd a dorwyd i mewn iddo. Mae'r ardal wedi bod yn arbennig o boblogaidd yn ystod y cyfnod rheoliadau cadw pellter cymdeithasol yn sgîl pandemig Covid-19.

Ardal o seddi boncyffion Dôl yr Ardd Fotaneg



Paul Edwards

TOMENNYDD CYNEFIN

Ers 2013, defnyddir deunydd pren na ellir ei brosesu i fod yn sglodion pren neu ei aildddefnyddio fel pyst i goed wedi cael ei ddefnyddio mewn ardaloedd anamlwg o amgylch y campws yn lle i greu “Tomennydd Cynefin”. Mae'r tomennydd hyn yn cynnwys bonion coed, cerrig, boncyffau sy'n pydru a mieri a dorrwyd etc. y maent oll yn troi'n gartref yn gyflym i gyfoeth o anifeiliaid di-asgwrn-cefn a lloches i famaliaid bach, megis draenogod. Wrth i'r tomennydd dreulio a dirywio, ychwanegir deunydd organig difywyd atynt yn achlysurol. Mae paledi pren hefyd wedi cael eu huwchgylchu i greu 'gwestai trychfilod' mewn pentyrrau o amgylch y Neuaddau Preswyl gan ddefnyddio'r un deunydd gwyrdd i lenwi'r bylchau ynddynt. Torrwyd boncyff derwen fythwyrdd fawr a ddaeth i lawr o ganlyniad i ddifrod mewn storm i ddarnau a'u lleoli ar hyd canopi coed sy'n gyfagos â'r Ddôl Fotaneg er mwyn darparu ardal o seddau i fyfyrwyr, ymwelwyr a staff.

Tomennydd Cynefin yr Ardd Fotaneg



Paul Edwards

YR ORACLE

Ar ben gorllewinol Llwybr y Coetir, ceir yr ardal astudio/ymlacio awyr agored a elwir yn 'The Oracle'. Ystyr Oracle yw 'Amgylchedd Ymchwil a Dysgu Cymunedol Awyr Agored' ac fe'i hadeiladwyd gan gwmni a ddeiliodd o'r Brifysgol o'r enw 'Down to Earth Project' gyda chymorth staff a myfyrwyr, gan ddefnyddio deunyddiau sy'n cael effaith ecolegol isel a lleol a chynnwys sgiliau megis adeiladu waliau cerrig sych, creu fframweithiau pren a chobiau. Wedi'i leoli'n gyfleus ar ddechrau'r Llwybr Bioamrywiaeth, y gobaith yw y bydd y strwythur unigryw a grëir yn cael ei ddefnyddio at ddibenion addysgol a hamdden nid yn unig gan fyfyrwyr a staff ond hefyd gan y gymuned ehangach. Roedd sŵn traffig o Heol y Mwmbwls yn broblem i gychwyn ac felly er mwyn mynd i'r afael â hyn, defnyddiwyd pridd o'r campws wedi'i gompostio a oedd yn weddill i greu ymyl blodau gwyllt isel â seddau boncyff wedi'u hintegreiddio ynddo. Mae'r tirlunio doeth hwn yn gweithredu fel bwrdd distewi i leihau sŵn y traffig i ddefnyddwyr wrth hefyd ychwanegu lliw tymhorol, lloches, seddau, preifatrwydd a llonyddwch.

Yr Oracle



Paul Edwards

LLWYBER BIOAMRYWIAETH PRIFYSGOL ABERTAWE

Agorwyd y Llwybr Natur ar 11 Mawrth 2014 gan y naturiaethwr teledu o Gymru Iolo Williams, ac mae wedi bod yn boblogaidd gyda myfyrwyr a staff. Mae teithiau tywys bob yn ail fis â thema a gynhelir ym mhob tymor wedi'u harwain gan staff y Brifysgol nid yn unig wedi addysgu pobl ond hefyd wedi annog gwerthfawrogiad mwy o ba mor ffodus yw'r Brifysgol i fod mewn lleoliad mor rhyfeddol.

Arwyddion y Llwybr Bioamrywiaeth



Paul Edwards

Gosodwyd Gwestai Trychfilod a grëwyd o bren meddal a chansenni bambŵ ar draws y campws ac wrth iddynt bydru yn y pen draw, cânt eu disodli drwy ddefnyddio bambŵ sy'n tyfu ar y safle. Mae'r bambŵ, sy'n aildyfu'n gyflym, ynghyd â chyflenwad cyson o bren o baledi yn sicrhau bod ffynhonnell adnewyddadwy ar gyfer y dyfodol

Gwesty Trychfilod yn Neuadd Breswyl Horton



Paul Edwards

Datgelodd y cynlluniau gwreiddiol ar gyfer yr Ardd Fotaneg mai'r bwriad oedd y byddai ardal gors gyferbyn â'r pwll addurnol presennol gyda dŵr yn tarddu o'r gorlif a'r nant fach. Tan yn ddiweddar, nid oedd hyn wedi'i gwblhau felly crëwyd cored o foncyff derwen i rwystro llif y nant, ac nid yn unig mae hyn wedi creu cors ymhellach i fyny'r nant, ond mae hefyd yn ocsigeneiddio'r dŵr sy'n rhaeadru drosto. Mae ail gored a grëwyd i lawr y nant wedi gwella ansawdd y dŵr, ac mae presenoldeb glas y dorlan sydd i'w weld yn aml yn pysgota crethyll yn dystiolaeth o hyn. Gwnaed gwelliannau pellach yn ystod diwrnod magu ymdeimlad o dîm Gwasanaethau'r Campws i atgyfnerthu ymylon y nant drwy wehyddu rhwystr bambŵ isel ymhellach i fyny na'r gored ar hyd ymyl y nant i leihau gwaelodi gormodol. O ganlyniad, caiff casgliad o lifwaddod ei glirio o'r nant a'i osod y tu ôl i'r rhwystr i'w gryfhau gan alluogi anifeiliaid di-asgwrn-cefn i ganfod eu ffordd yn ôl i'r dŵr.

Nant yn yr Ardd Fotaneg



Paul Edwards

Cored yr Ardd Fotaneg



Paul Edwards

Pwll Addurnol yr Ardd Fotaneg



Paul Edwards

Map Campws Singleton



© Prifysgol Abertawe

Coed Ffrwythau Horton

NEUADD BRESWYL HORTON

Plannwyd y coed gan adrannau buddugol y Brifysgol yn rownd 'Effaith Werdd' y fenter, ar ffurf sy'n debyg i siâp hirgrwn, gyda'r bwriad o ychwanegu pwll bas wedi'i leinio â chlai yn y dyfodol agos. Dewiswyd y safle ei hun i annog mwy o ddefnydd o ardal prin yw ei diddordeb amgylcheddol neu esthetig fel arall.



Paul Edwards

GRŴP BIOAMRYWIAETH PRIFYSGOL ABERTAWE

Mae'r Grŵp Bioamrywiaeth wedi cyflawni llawer iawn mewn cyfnod byr a heb fawr o adnoddau. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i fabwysiadu ethos o ailgylchu/uwchgylchu sgîl-gynnyrch naturiol sy'n deillio o waith cynnal a chadw beunyddiol y tiroedd. Fel sy'n digwydd yn aml iawn gyda chynefinoedd sy'n destun nifer ymwelwyr a defnydd uchel, rhaid cael cydbwysedd fel y gellir gwarchod mannau agored a'u mwynhau ar yr un pryd. Mae gan Ardd Fotaneg y brifysgol yn benodol ddwy rôl allweddol; yn gyntaf, fel man "ymlacio" i fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr, ac yn ail, fel cyfleuster addysgu yn yr awyr agored.

GRŴP GWIRFODDOLI CADWRAETH MYFYRWYR

Mae Grŵp Gwirfoddoli'r Myfyrwyr yn ymarfer ac yn dysgu sgiliau cadwraeth ymarferol ynghyd â thechnegau rheoli wrth gynorthwyo gyda'r prosiectau tirlunio a drafodwyd uchod o amgylch y campws. Mae'r Tîm Tiroedd wedi cynorthwyo'r myfyrwyr yn y mentrau hyn drwy weithio ochr yn ochr â nhw a chynnig tiwtora ac arweiniad. Mae'r Tîm Tiroedd wedi bod yn rhan uniongyrchol o sawl prosiect a gwaith ailddatblygu, gan gynnwys rhai prosiectau tirlunio caled megis adeiladu llwybrau, grisiau a ffensys, i dirlunio meddal megis gosod glaswellt newydd ar lawntydd, plannu coed i ailddylunio ardaloedd yn gyfan gwbl er mwyn diwallu anghenion newidiol rhanddeiliaid y Brifysgol.

LLEIHAU'R DEFNYDD O CHWYNLADDWYR A GWRTAITH ARTIFFISIAL

Mae defnyddio chwynladdwyr a gwrtaith 'artiffisial' nad yw'n organig ar Diroedd y Brifysgol yn cael eu defnyddio cyn lleied ag sy'n ymarferol. Mae deunyddiau organig amgen megis gwyon ar ffurf hylif, yn cael eu defnyddio ac maent wedi bod yn llwyddiant mawr.

GWEITHGAREDDAU A CHYFLEUSTERAU

Mae rhai o'r cyrsiau Ecoleg yn manteisio'n uniongyrchol ar gael yr Ardd Fotaneg ar garreg y drws gan ei bod yn troi'n ystafell ddosbarth awyr agored yn llythrennol, gan gynnig pynciau cyffyrddadwy na ellir eu hefelychu ar fonitor cyfrifiadur. Mae pobl yn mwynhau'r mannau gwyrdd ac eang o amgylch Campws Singleton ac yn cynnal gweithgareddau hamdden arnynt drwy gydol y flwyddyn, gan amrywio o Ddawns yr Haf flynyddol y myfyrwyr i'r gweithgareddau llai arferol (mae gan y Brifysgol dîm 'Quidditch' brwd iawn, wedi'i ysbrydoli gan Harry Potter!) ac, wrth reswm, fel lle i ymlacio a meddwl.

AMWYNDERAU

Mae amwynderau Campws Singleton y tu mewn i adeiladau'r Brifysgol. Mae cyfleusterau toiledau ac ardaloedd gorffwys y tu mewn i adeiladau, gan gynnwys ardaloedd lle mae mynediad i bobl anabl. Mae'r amwynderau eraill ar y campws yn cynnwys llyfrgelloedd, Undeb y Myfyrwyr, sawl man bwyta a Theatr Taliesin. Mae adeilad Taliesin hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfleusterau lle i berfformio.

ARWYDDION A HYSBYSFYRDDAU

Mae arwyddion y campws yn nodi lleoliadau adeiladau ac ardaloedd o ddiddordeb, megis y Llwybr Bioamrywiaeth ac ardaloedd Treftadaeth, gan gynnig awyrgylch croesawgar i sicrhau bod holl ddefnyddwyr y campws yn teimlo'n gyffyrddus ac yn ddiogel wrth gerdded o amgylch y safle. Mae mapiau o'r safle hefyd ar gael o'r derbynfeydd a gellir eu cyrchu ar wefan y Brifysgol.

DIOGELWCH, DIOGELEDD A GLENDID

DIOGELWCH

Mae Safle Campws Singleton Prifysgol Abertawe yn gweithredu ddydd a nos, bob dydd o'r flwyddyn, ac mae cymorth a chynghor ar gael i fyfyrwyr, staff ac aelodau o'r cyhoedd fel ei gilydd ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelwch. I'r perwyl hwn, eu gorchwyl yw cynnal amgylchedd academiaidd a busnes diogel drwy amddiffyn pobl, gwybodaeth ac eiddo yn ogystal â diogelu enw da'r Brifysgol. Prifysgol Abertawe yw un o'r lleoedd mwyaf diogel yn y DU i astudio ynddo neu ymweld ag ef, ac mae'n cynnig un o'r cyfraddau troseddu isaf yn y wlad.

Mae'r tîm Diogelwch yn patrolio mewn cerbydau lifreig ac wrth gerdded, bob awr o'r dydd a nos, gan fonitro llwybrau, ffyrdd a meysydd parcio. Maent hefyd yn adrodd am ddamweiniau, digwyddiadau a methiant offer, megis goleuadau stryd diffygiol, cyn gynted â phosib drwy'r sianeli priodol.

Mae CCTV yn amlwg ar draws y campws, ac mae larymau tresbaswyr yn cynnig lefel ychwanegol o ddiogelwch mewn nifer o leoliadau sy'n enwedig o agored.

Ceir presenoldeb ar dderbynfa'r campws ddydd a nos i ddarparu pwynt cyswllt canolog i staff, myfyrwyr ac aelodau'r cyhoedd sy'n chwilio am gyngor, gwybodaeth am barcio neu sydd am adrodd am eitemau coll. Darperir mapiau o'r Campws ac o'r dref, prospectysau, amserlenni bysus, rhifau cwmni'edd tacsis a llenyddiaeth berthnasol arall i ymwelwyr hefyd.

GOLEUO STRYDOEDD

Mae darparu goleuo digonol ym mhob rhan o'r Campws yn hanfodol, er mwyn i'r campws fod yn groesawgar ond hefyd am resymau diogelwch. Mae goleuo stryd wedi cael ei uwchraddio i oleuadau LED i gefnogi Polisi Amgylcheddol y Brifysgol a gwella lefelau goleuo.

HYGYRCHED

Mae gan Gampws Singleton ychydig o lethrau o wahanol feintiau ac felly gall mynediad i'r anabl, yn enwedig mynediad i gadeiriau olwyn, fod yn heriol ar adegau. Mae rhwymedigaeth ar y Brifysgol i ddarparu profiad o'r safon uchaf i fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr a sicrhau bod mynediad hwylus at gyfleusterau ar draws y campws i bawb. Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (a chyn hynny, Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995) i wireddu'r ymrwymiad hwn ac mae'r campws yn cael ei addasu'n aml wrth ystyried mynediad i bobl anabl, gyda rampiau mynediad, toiledau hygrych a lifftiau awtomatig lle bo'n bosib. Ceir lleoedd parcio wedi'u neilltuo'n arbennig i ddeiliaid bathodynau glas hefyd ar draws y campws.

GRAEANU A CHLIRIO EIRA

Yn ystod misoedd y gaeaf, caiff gwaith graeanu Campws Singleton ei allgcontractio. Fodd bynnag, mae'r Tiroedd Tir a Diogelwch yn gweithio gyda'i gilydd i fonitro unrhyw dywydd garw a ragwelir ac mae ganddynt yr offer i gwblhau graeanu a chlirio eira yn y Brifysgol os bydd angen.

DARPARIAETH SYMUD SBWRIEL

Y Tîm Tiroedd sy'n gyfrifol am wagio pob bin sbwriel allanol a chasglu sbwriel, ac maent yn cydweithio'n agos â'r Gwasanaethau Campws, a'r Tiroedd Digwyddiadau a Phrosiectau i sicrhau y caiff y campws ei gadw'n lân ac yn daclus cyn gwaith adeiladu neu ddigwyddiadau blynyddol, fel Dawns yr Haf, ac ar ôl hynny.

CYNNAL A CHADW NODWEDDION DWR

Pyllau

Mae dau bwl addurnol ffurfiol ar Gampws Singleton ac mae'r Tîm Tiroedd yn glanhau ac yn cynnal a gwella'r pyllau a'u cyffiniau.

Pwll Tŵr Vivian



P Edwards 2020

FFYNHONNAU

Yn dilyn ceisiadau cynharach i adfer Ffynhonnau'r Abaty, roeddent yn gollwng yn wael iawn, gan ddirywio'n gyflym. Yn 2020, dechreuodd gwaith adfer i ddathlu Canmlwyddiant y Brifysgol ond yn anffodus, o ganlyniad i bandemig Covid-19, mae'r cynnydd wedi cael ei oedi, yn ddealladwy. Serch hynny, mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i'w gweld yn eu hen ogoniant unwaith yn rhagor.

Ffynnon 'Morwyn' yr Abaty cyn yr ymgais diwethaf i'w hadfer



Ffynnon 'Morwyn' yr Abaty cyn ei hadfer



Ffynnon 'Morwyn' yr Abaty yn cael ei hadfe



P Edwards 2021

Ffynnon 'Dolffin' yn ei hanterth



Ffynnon 'Dolffin' yr Abaty cyn cael ei hadfer



Ffynnon 'Dolffin' yr Abaty cyn cael ei hadfer



P Edwards 2021

DWR GLAW

Mae dŵr glaw yn cael ei gasglu drwy osod casgenni dŵr i gasglu dŵr glaw o dai gwydr yr Ardd Fotaneg a llyfrgell 1937. Dewiswyd y ddau leoliad am eu hagosrwydd i gynlluniau plannu gwelyau'r haf y mae angen dyfrio ychwanegol arnynt yn ystod misoedd yr haf.

FANDALIAETH AC TMDDYGIAD GWRTHGYMDEEITHASOL

Mae gweithgaredd myfyrwyr yn dod â heriau ond nid yw fandaliaeth nac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem gyffredin. Gall digwyddiadau tymhorol, megis Varsity, Dawns yr Haf a hyd yn oed Galan Gaeaf achosi cynnydd bach mewn graffiti prin yn ymddangos, ond caiff hyn ei drin yn y ffordd fwyaf effeithiol a'i ddileu ar unwaith.

GWAITH CYNNAL A CHADW AC ADNODDAU

STAFFIO

Dyfarnwyd 'Tîm y Flwyddyn' i'r staff Tiroedd yn y gynhadledd staff flynyddol yn 2019 ac erbyn hyn, mae'n cynnwys Rheolwr y Tiroedd, Arweinydd Tîm y Tiroedd, pedwar Cynorthwy-ydd Tiroedd yn ogystal â chymorth gan Dîm y Gwasanaethau Campws. Mae'r Tîm Tiroedd yn gweithio ar Gampws Singleton, Campws y Bae a chyfleusterau bach eraill sy'n cael eu llogi neu sy'n eiddo i'r Brifysgol. Mae'r Tîm Tiroedd yn rhyngweithio â myfyrwyr, ymwelwyr a staff eraill bob dydd ac maent bob amser yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn hapus i helpu, yn enwedig wrth gynnig cyngor garddwriaethol neu helpu unrhyw un ag anhawster. Mae hyfforddiant diweddar mewn Gofal Cwsmeriaid wedi helpu ymhellach byth o ran y gwasanaeth maent yn ei ddarparu.

Hefyd, mae Tîm Tiroedd yn gweithio yn y Ganolfan Chwaraeon yn gofalu am yr holl gyfleusterau chwaraeon allanol. Mae'r rhain yn cynnwys caeau pêl-droed, rygbi a maes 3G a thrac rhedeg. Er eu bod yn dod dan adrannau gwahanol, mae'r ddau yn cydweithio'n agos i gynorthwyo ei gilydd a rhannu adnoddau yn ôl yr angen.

Oherwydd nifer gynyddol yr ardaloedd sy'n cael eu cynnal gan y Tîm Tiroedd, ystyrir ffyrdd amgen o arbed amser ac ymdrech gweithwyr. Er enghraifft, bellach mae peiriant glanhau ffyrdd hunan-yredig yn cael ei ddefnyddio i lanhau nifer fawr o ardaloedd i gerddwyr o amgylch y campws sy'n arbed amser yn ogystal â rhyddhau amser staff i gwblhau tasgau perthnasol eraill ar y safle. Darn arall o gyfarpar sy'n arbed gwaith oedd yr ATV 'Gator' a brynwyd. Mae'r cerbyd hwn a'i allu 'mynd unrhyw le' a'i deiers pwysau isel ar y llawr wedi cynorthwyo'n fawr wrth gludo staff a deunydd o amgylch y campws a rhwng campysau i gynyddu effeithiolrwydd ac amser ymateb y Tîm Tiroedd. Rydym wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio peiriannau wedi'u pweru gan betrol, megis teclynnau torri gwaith a llwyni, yn raddol, a'u disodli gydag offerynnau eraill wedi'u pweru gan fatris, gan arwain at effaith wych ar leihau lefelau sŵn a chyrraedd dim allyriadau.

I fynd i'r afael â'r broblem o gwm cnoi sydd wedi'i daflu, prynwyd dau beiriant glanhau gwm sy'n ystyriol o'r amgylchedd ac sydd wedi'u pweru â stêm ac maent wedi cael effaith gadarnhaol ar olwg y campws mewn amser cymharol fyr. Gellir eu defnyddio yn ystod adegau prysur neu hyd yn oed yn ystod arholiadau gan eu bod yn dawel, yn gludadwy iawn ac yn eco-gyfeillgar. Mae'r dull glanhau wedi'i greu o adnoddau adnewyddadwy sy'n seiliedig ar wlychwyr siwgr yn hytrach nag olew, sy'n gwneud y gwm yn hollol fioddiraddiadwy.

EcoGum Maxi



© Eco Removal Systems Ltd

PEIRIANNAU A GWEITHDREFN CYNNAL A CHADW PEIRIANNAU

Cwblheir gwasanaethu ac atgyweirio peiriannau mawr gan y gwerthwyr gwreiddiol perthnasol. Mae gwaith cynnal a chadw ar beiriannau llai yn cael ei gwblhau'n fewnol gan y gweithredwyr perthnasol yn y Tîm Tiroedd. Mae hyfforddiant 'Sgwrs Pecyn Cymorth' blynyddol a ddarperir i'r gweithredwyr yn cynnwys gwiriadau cyn defnyddio, gwaith cynnal a chadw beunyddiol ac asesiadau risg sy'n gysylltiedig â gweithredu'r peiriannau'n ddiogel.

COEDYDDIAETH

Mae nifer fach o aelodau'r Tîm Tiroedd yn gymwys i ddefnyddio llif gadwyn ar lefelau gwahanol. Ar hyn o bryd, defnyddir cyfuniad o aelodau'r Tîm Tiroedd a chontractwyr i ymdrin â gwaith coed sy'n fwy heriol. Y nod yw parhau i ddatblygu'r tîm mewnol er mwyn iddo allu cwblhau bron pob prosiect cynnal a chadw coed yn y dyfodol, os nid pob un ohonynt.

Cynhelir arolygon coed yn flynyddol gan Reolwr y Tiroedd a'r Tyfwr Coed penodedig i amlygu unrhyw ddiffygion yn y coed ar y campws sy'n agos iawn i adeiladau, ardaloedd i gerddwyr neu feysydd parcio, a mynd i'r afael â nhw.

ADEILADAU

Mae amrywiaeth o wahanol fathau ac oedrannau adeiladau ar draws Campws Singleton, y mae rhai ohonynt yn rhestredig ac sy'n cael eu defnyddio at ddibenion amrywiol, gan gynnwys addysgu, ymchwil, gweinyddu, gweithgareddau chwaraeon a hamdden. Yn bennaf, lleolir yr adeiladau ar gynllun grid sy'n rhedeg ar draws yr holl safle. Mae tirlunio a chynnwys mannau gwyrdd ar draws y safle'n parhau i fod yn brif flaenoriaeth wrth ystyried datblygiad pellach y campws.

Abaty Singleton

Adeiladwyd canolbwynt Abaty Singleton ym 1784 gan y swyddog tollau Edward King. Erbyn 1817, roedd y diwydiannwr John Henry Vivian wedi'i brynu, a wnaeth ef estyn y tŷ ymhellach drwy ei ailfodelu yn arddull neo-gothig drwy benodi'r pensaer Peter Frederick Robinson (1776-1858) a oedd yn adnabyddus ar y pryd am ei waith 'Designs for Ornamental Villas' a chyhoeddiadau llyfrau patrwm eraill.

Ym mis Gorffennaf 1919, gwerthodd Ernest Vivian, ail Farwn Singleton, Abaty Singleton i Gorfforaeth Abertawe. Roedd y cyngor am ddatblygu'r ystâd yn bennaf at ddibenion creu tai ond rhoddwyd y plasdy i Goleg Prifysgol Abertawe ym 1923.

Mae teras rhestredig gradd II yr Abaty yn dyddio o oes Sarah Vivian, gwraig John Henry Vivian (1830au). Roedd hithau'n arddwraig ddawnus hefyd, ac mae llawer o'i gwaith i'w weld o hyd heddiw, gan barhau i ddylanwadu ar waith adfer a wneir gan y Brifysgol. Un nodwedd o bwys yn nheras yr Abaty yw'r goeden magnolia fawr wedi'i lleoli ar y blaenlun sy'n wynebu i gyfeiriad y de. Dros y degawdau, sefydlwyd traddodiad gan fyfyrwyr lle os yw'r goeden wedi dechrau blodeuo ac nid oeddech chi'n adolygu ar gyfer arholiadau'r haf, roedd eisoes yn rhy hwyr.

Mae tiroedd yr Abaty wedi'u cysylltu mewn ffordd gwbl hanfodol â threftadaeth y Brifysgol, gan gyfrannu at fioamrywiaeth y parcdir lle maent wedi'u lleoli. Mae'r man agored rhagorol hwn yn cynnig golygfeydd ar draws dôl yr Abaty (sy'n rhestredig) a Bae Abertawe, ac mae ar agor i'r gymuned leol ymweld ag ef a'i fwynhau. Mae'r tirlunio a'r plannu wedi'u gosod i gyd-fynd â sut olwg fyddai wedi bod ar erddi'r Abaty yn eu hanterth, wrth barhau i gynnig naws campws fywiog a chroesawgar.

Tŵr Vivian

Agorwyd Tŵr Vivian, â'i naw llawr, ym 1966, ac yn wreiddiol fe'i gelwid yr Adeilad Ffiseg a Mathemateg. Yn hwyrach, fe'i henwyd yn Dŵr Vivian i gydnabod adeilad gwreiddiol y Brifysgol, sef Abaty Singleton, a oedd yn gartref i deulu dylanwadol y Vivian cyn 1920.

Roedd y tŵr yn rhan o gam ehangu mawr yn y Brifysgol yn ystod canol y 1950au ac a ddaeth i ben yn y 1970au cynnar. Pan agorwyd y tŵr, dim ond 3,000 o fyfyrwyr a oedd wedi cofrestru yn yr hyn a elwid ar y pryd yn 'Goleg Prifysgol Abertawe'. Mae'r pwll yn y blaenlun sy'n wynebu cyfeiriad y de yn gydnaws â dyluniad y tŵr ei hun, ac fe'i datblygwyd ar yr un adeg.

Cerflun Confucius

Er ei fod wedi'i amgylchynu gan adeiladau eraill y Brifysgol erbyn hyn, mae'r pwll yn gartref i amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid dyfrol, gan gynnig man cwrdd distaw i ymlacio a mwynhau. Roedd cerflun Confucius, sy'n gwyllo'r pwll, yn anrheg i'r Brifysgol gan Lywodraeth Tsieina. Fe'i derbyniwyd yn 2009, gan symboleiddio'r cysylltiadau agos sydd wedi'u meithrin rhwng y ddau.



©Prifysgol Abertawe

Adeiladau Sefydliad y Gwyddorau Bywyd

Y Sefydliad Gwyddor Bywyd (ILS) yw prif gyfleuster pwrpasol ymchwil feddygol Cymru. Mae'n fenter ar y cyd rhwng Prifysgol Abertawe a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABMU), IBM, a phartneriaid o ddiwydiant a busnes. Hwn yw'r buddsoddiad unigol mwyaf erioed gan Lywodraeth Cymru mewn unrhyw gampws prifysgol. Y weledigaeth ar gyfer yr ILS yw hyrwyddo gwyddoniaeth feddygol drwy ymchwil ac arloesi amlddisgyblaethol a rhyngddisgyblaethol er lles iechyd dynol, ac i gysylltu'r buddion hynny â'r economi drwy annog rhyngweithio â sefydliadau eraill mewn ysbryd o Arloesi Agored.

Mae'r nodweddion amgylcheddol sydd wedi'u cynnwys yn yr adeilad hwn yn cynnwys pwmp gwres ffynhonnell ddaear, sy'n lleihau'r ddibyniaeth ar fecanweithiau artiffisial o greu ynni. Bydd hyn yn lleihau allyriadau CO2 yr adeiladau yn fawr. Mae ganddo hefyd is-fesuryddion i fonitro ardaloedd o ddefnydd ynni uchel, megis labordai. Mae hefyd awyru naturiol ffasâd lwfrog, system oeri gyda'r nos a rheoli tywyllu gyda'r nos sy'n mwyafu ar y defnydd o olau'r dydd ac ynni thermal a gronnir.

LLWYBRAU CERDDED

Adeiladwyd y rhan fwyaf o lwybrau cerdded gyda naill ai slabiau concrit, concrit, tarmac neu gerrig graen a rwymir gan resin. Dylunnir yr holl lwybrau cerdded fel arfer gan yr Adran Ystadau i gychwyn, a'r Tîm Tiroedd sy'n eu cynnal ar ôl hynny. Caiff tyllau yn y ffyrdd slabiau sy'n rhydd ayyb eu hadrodd drwy'r ddesg gymorth sy'n dilyn cynnydd pob darn o waith a gofnodir.

Weithiau, bydd y Tîm Tiroedd yn creu llwybrau o sglodion pren neu gregyn cocos lleol ac yn atgyweirio ymylon rhai o'r llwybrau lle mae dirywio'n broblem. Fodd bynnag, prif rôl y Tîm Tiroedd yw torri unrhyw lwyni sy'n debygol o orchuddio llwybrau cerdded a ffyrdd i sicrhau y gellir eu gweld yn glir ac y cynhelir lefelau o olau. Cwblheir y broses hon naill ai gyda thrimiwr llwyni, tocio sylweddol neu ail-lunio llwybrau cerdded drwy symud planhigion sydd wedi tyfu'n ormodol a'u disodli gyda phlanhigion eraill sy'n tyfu'n isel.

CELFY STRYD

Meinciau

O gwmpas y campws, mae sawl meic goffa bren, y mae rhai o'r rhai hŷn wedi'u gwneud o goncrit a phren a wnaed o flaen llaw, mathau dur gwrthstaen modern ac unedau o feinciau/byrddau. Yn 2020, i hwyluso mesurau cadw pellter cymdeithasol yn sgîl Covid-19, gosodwyd 30 o feinciau/byrddau wedi'u labeli'n briodol a'u lleoli o amgylch tiroedd y campws.

Biniau Sbwriel

Yn raddol, mae biniau sbwriel concrit hŷn a biniau sbwriel plastig crwn yn cael eu disodli gan finiau llifau gwastraff amrywiol i hyrwyddo ailgylchu ar y campws.

Ymylon Gwelyau Blodau

Mae ymylon a wnaed 100% o blastig wedi'i ailgylchu ac mae'n llwyddiannus iawn oherwydd nad yw'n pydru nac yn dirywio. Wrth i'r hen ymylon pren/galfanedig ddirywio, cânt eu disodli gan ymylon plastig a ailgylchwyd sy'n amlygu ymrwymiad y Brifysgol i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd drwy'r cynnyrch mae'n ei brynu.

Arwyddion

Mae Campws Singleton yn cynnig cyfoeth o nodweddion tirwedd, ac mae gosod cam cychwynnol arwyddion gwybodaeth 'Treftadaeth' newydd yn 2020 mewn lleoliadau

allweddol o gwmpas y campws yn llywio myfyrwyr, staff ac ymwelwyr. Nid yn unig y mae'r arwyddion yn rhoi gwybodaeth, maent hefyd yn codi proffil tiroedd y Brifysgol fel lle i ymlacio, mwynhau ac astudio, yn ogystal â chynnig amgylchedd sy'n gwella lles ac 'amser personol' pobl.

Lleoliadau'r arwyddion.

Lleoliad 1: Tŷ Ymlusgiaid yr Ardd Botaneg

Mae nodweddion unigryw niferus y Gerddi Botaneg wedi'u hamlygu yn yr arwyddion newydd. Mae'r lleoliad yn cynnig yr olygfa orau ar gyfer cyfeiriadau uniongyrchol o safbwynt uchel. Er gwaethaf cael ei greu i ymlusgiaid, mae bellach yn gartref i frogaod a madfallod sy'n defnyddio ei ffos i silio. Yn y gwanwyn, weithiau y bydd hwyaid yn bachu llond ceg o ríft brogaod!

Arwyddion yr Ardd Botaneg



4 Gerddi BOTANEG

BOTANICAL Gardens



Yr Ymlusgdy:
Cafodd yr enw hwn gan yr oedd yn wreiddiol yn gartref i grŵp bach o grwbanoedd a oedd yn byw ar yr ymys. Fe'i defnyddid hefyd mewn rhaglen ffridio gwiberod a ryddhawyd yn y pen draw ar Benthyn Gŵyr.

Y Pwll Addurniadol:
Mae'r pwll yn cynnwys llyswennod, crethyll ac ambell bysgodyn aur ac mae hefyd yn gartref i anifeiliaid di-asgwm-ccfn a gweision y neidr.

Yr Orad:
Gweithiodd myfyrwyr y Brifysgol gydag elusen leol Down to Earth i adeiladu'r Orad (sef yr Amgylchedd Dygu Cymunedol ac Ymchwil Awyr Agored) yn y gerddi. Defnyddiodd y ffin ddeunyddiau lleol ac effaith ecolegol isel gan ddefnyddio sgiliau megis adeiladu waliau cerrig sych, ffurfio fframiau pren a chobio.

Y Ddôl:
Mae'r ddôl fach yn y gerddi'n rhestredig a chaiff ei thori unwaith y flwyddyn yn unig, gan gynyddu tirwedd fframrywiol y Brifysgol.

Llwybr y Goedwig:
Helpodd myfyrwyr y Brifysgol i adfer llwybrau coedwig y goedwig a oedd yn tueddu i foddi mewn llifogydd. Bellach, maent yn arwain at y ddol restredig. Yn ogystal, adeiladwyd cyfres o 'westai trychfilod' a thomenni cynefin ganddyni ar hyd y llwybr, gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u huchgylchu.

Cychod Gwenyn:
Yn mis Ionawr 2014, cyflwynwyd cychod gwenyn i'r Gerddi Botaneg. Ar hyn o bryd, mae chwe chywch ar y safle y mae'r Brifysgol yn berchen amyn ac yn gofalu amdanynt.

Y Ffin Drefnol:
Mae gan yr ardal hon o'r ardd ei microhinsawdd ei hun fel y gallir gweld gyda'r planhigion banana sy'n ffynnu a'r Gwiberlys enfawr (sy'n perthyn yn agos i'r yscorpiantlys bach iawn).

The Reptiliary:
So called as it was originally home to a small group of tortoises which lived on the island. It was also used in a breeding programme for adders which were eventually released onto the Gower Peninsula.

The Ornamental Pool:
The pool contains eels, sticklebacks and the occasional goldfish and is also home to invertebrates and dragonflies.

The Orchard:
University students worked together with local charity Down to Earth to build The Oracle (Outdoor Research and Community Learning Environment) within the gardens. The team used ecologically low impact, locally sourced materials incorporating skills such as dry stone walling, timber frame forming and cobbing.

The Meadow:
The small meadow within the gardens is listed and mown just once a year, increasing the University's biodiverse landscape.

The Bee Hives:
In January 2014, bee hives were introduced to the Botanical Gardens. There are currently six hives within the site which are owned and tended by University staff.

Woodland walk:
University students have helped restore the woodland walk paths which were susceptible to flooding and now lead to the listed meadow. They also built a series of "bug hotels" and habitat piles along the route, using up-cycled materials.

The Tropical Border:
This area of the garden has its own mini microclimate as can be seen by the thriving banana plants and huge Echinus (a close relative of the tiny forget-me-not).




Y Gerddi Botaneg yn 1960s (o'r chwith i'r dde): Dr. Herbert 'Bertie' Street, Annie Mockeridge, a ymddolodd ym 1954 cyn cwblhau'r prosiect. Dasth Dr Herbert 'Bertie' Street i orhain yr Athro Mockeridge, gan ddylunio cynllun terfynol yr ardd a goruchwilio'r broses o'i chreu.
 The plans for the listed Botanical Gardens were first drawn up by pioneering British botanist and Dean of the Faculty of Science, Professor Florence Annie Mockeridge who retired in 1954 prior to the completion of the project. Dr Herbert 'Bertie' Street succeeded Professor Mockeridge, designing the final garden layout and overseeing its creation.

www.swansea.ac.uk/life-on-campus/our-grounds

Lleoliad Arwyddion yr Ardd Botaneg



P Edwards 2020

Lleoliad 2: Pwll Tŵr Vivian.

Gan gael ei amgylchynu'n llwyr gan yr adeiladau cyfagos, byddai'n rhwydd peidio â sylwi ar y pwll. Am y rheswm hwn, gosodwyd arwydd ar ymyl dwyreiniol y fynedfa i Dŵr Vivian fel y lle gorau i roi gwybodaeth ynghylch pwyntiau o ddiddordeb megis cerflun Confucius a pha fywyd gwyllt (Fflora a Ffawna) y gellir ei weld yno, er enghraifft llysywennod, hwyaid a gweision y neidr, a hwyaid sy'n nythu ar yr ynys yn y canol. Mae gweision y neidr yn hela uwchben, gan ddodwy eu hwyau ar ymyl y dŵr, a cheir hyd yn oed llysywennod yma.

Arwyddion Pwll Tŵr Vivian



Pwll VIVIAN

VIVIAN TOWER

Pond



Confucius yn edrych dros ymdd. Cliché: 1984, J. Jones
The statue of Confucius overlooking the pond. Courtesy of 1984, J. Jones

Agorodd Tŵr Vivian, a'i naw llawr, ym 1966, yn wreiddiol fel yr Adeilad Ffiseg a Mathemateg. Yn hwyrach, fe'i galwyd yn Dŵr Vivian i gydnabod y ffaith bod adeilad gwreiddiol y Brifysgol, Abaty Singleton, wedi bod yn gartref y teulu Vivian cyfoethog a dylanwadol cyn 1920.

The nine-storey Vivian Tower was opened in 1966, originally as the Physics and Mathematics Building. It was later named the Vivian Tower in recognition of the fact that the original University building, Singleton Abbey, had been the home of the wealthy and influential Vivian family before 1920.

Roedd y tŵr yn rhan o gam ehangu mawr y Brifysgol yn y cyfnod a dddechreuodd yng nghanol y 1950au, gan ddod i ben ym y 1970au cynnar. Pan agorodd y tŵr, 3,000 yn unig o fyfyrwyr oedd wedi cofrestru yn yr hyn a elwid ar y pryd yn 'Goleg Prifysgol, Abertawe'.

Datblygodd y pwll, sy'n cyd-fynd â dyluniad y tŵr ei hun, ar yr un pryd. Er ei fod e' bellach wedi'i amgylchynu gan adeiladau eraill y Brifysgol, mae'r pwll yn gartref i amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid dŵr. Mae hwyaid yn nythu yno ac mae gweision y neidr yn dodwy eu hwyau wrth ymyl y dŵr.

Yn edrych dros yr olygfa ceir cerllun o Confuciaws. Fel y rhan fwyaf o sefydliadau addysg uwch, mae Prifysgol Abertawe wedi gwneud cryn ymdrech dros y 30 mlynedd diwethaf i feithrin cysylltiadau â gwledydd tramor at ddbenion cydwethio ar ymchwil a chyfnewid myfyrwyr. Mae'r cerllun yn anrheg gan lywodraeth Tsieina i'r Brifysgol.

Fe'i derbynwyd yn 2009 ac mae'n symboleiddio'r cysylltiadau agos a ddatblygwyd rhwng y ddwy wlad.

The tower was part of a large phase of expansion that took place at the University in that period which began in the mid-1950s and ended in the early 1970s. When the tower was opened there were only 3,000 students on the roll at what was then called 'the University College, Swansea'.

The pool, which is in-keeping with the design of the tower itself, was developed at the same time. Even though it is now surrounded by other university buildings, the pond is home to a range of aquatic plants and animals. Ducks nest there and dragon flies lay their eggs at the water's edge.

Watching over all of this is a statue of Confucius. Like most higher education institutions, Swansea University has made a great deal of effort in the past thirty years to forge links with overseas countries for the purposes of research collaborations and for the exchange of students. The statue is a gift from the Chinese government to the University. It was received in 2009 and it symbolises the close links that have been forged between the two.



Statue of Confucius overlooking the pond. Cliché: 1984, J. Jones
Statue of the Physics and Mathematics Building, c.1960s. Courtesy of the Richard Burton Archive, Swansea University (reference: UNW12/AL/47/12/12)



Statue of Confucius overlooking the pond. Cliché: 1984, J. Jones
Statue overlooking the pond. Courtesy of 1984, J. Jones

www.swansea.ac.uk/life-on-campus/our-grounds

©Prifysgol Abertawe

Lleoliad Arwyddion Pwll Tŵr Vivian



P Edwards 2020

Lleoliad 3: Yr Abaty

Mae'r arwydd yng ngwely asalea lefel uwch yr Abaty, sy'n cynnig golygfeydd o'r ddôl (rhestredig). Mae'r arwydd yn cynnwys gwybodaeth am hanes yr Abaty, ei gysylltiadau â'r Brifysgol a'r dirwedd mae'n rhan ohoni. Mae'r Abaty yn gartref i'r ystlum lleiaf. Mae'r creaduriaid bach hoyn yn pwysu tua'r un peth â darn 20c ond gall fwyta tua 300 o fân-wybed mewn noson, gan ddringo'n ôl drwy graciau yn waliau a tho'r Abaty i fagu ei ystlumod bach a gaeaf gysgu yn ystod y misoedd oer.

Arwyddion yr Abaty



Abaty SINGLETON

SINGLETON Abbey



Students walking on the Abbey grounds

Mae gan 'Abaty Singleton', sy'n blasty gwledig Neo-gothig mewn gwirionedd, hanes hir a chyfoethog. Adeiladwyd yr adeilad presennol fesul cam. Codwyd adeilad tri llawr wythnoglog gwreiddiol o'r enw Marino ym 1784. Prymwyd hwn gan y teulu diwydiannol cyfoethog a phwerau, y teulu Vivian, ym 1816. Ailadeiladodd John Henry Vivian yr Abaty fesul cam dros y 40 mlynedd nesaf, gan greu'r olwg sydd ganddo erbyn hyn. Roedd rhai o ystafelloedd pwysigaf y Brifysgol, megis Siambr y Cyngor, unwaith yn ystafell ginio'r teulu Vivian.

Singleton 'Abbey', which is actually a neo-gothic country house, has a long and rich history. The current building was constructed in stages. An original three-storey octagonal building called Marino was built in 1784. This was bought by the wealthy and powerful industrialists, the Vivians, in 1816.

John Henry Vivian re-built the Abbey in stages over the next forty years to make it look like it appears today. What are now some of the University's important rooms, like the Council Chamber, were once the Vivian's dining room.

Dros amser, croesawyd amrywiaeth o bobl bwysig a dylanwadol i'r Abaty. Rhoddodd y Prif Weinidog William Gladstone arai'n o'r teras ym 1887. Ar ôl mynd yn adfail, gwerthwyd yr Abaty i'r cyngor lleol ym 1919, a wnaeth hwnnw ei roi i Goleg Prifysgol, Abertawe. Yn y blynyddoedd cynharaf hynny yn y 1920au, cafodd y rhan fwyaf o'r pynciau eu haddysgu yn yr Abaty ac yn ei adeiladau cyfagos.

Erbyn hyn, canolbwynt gweinyddol a rheoli'r Brifysgol yw'r Abaty, ac mae'r hyn a fu'n ystafelloedd gwely, ystafelloedd astudio ac ystafelloedd cymdeithasu bellach yn swyddfeydd ac yn ystafelloedd cyfarfod.

Mae teras rhestredig Gradd II yr Abaty'n dyddio o oes Sarah Vivian, gwraig John Henry Vivian (1830au). Roedd hitiau'n arddwr dawnus a gallir gweld alion ei gwaith hyd at heddiw ac mae'n parhau i dylanwadu ar y gwaith adfer mae'r Brifysgol yn ymgymryd ag ef.

Un o nodweddion amlycaf teras yr Abaty yw'r goeden fagnolia fawr. Dros y degawdau, roedd yn draddodiad ymhlith myfyrwyr os oedd y goeden wedi dechrau blodeuo ac nid oedddech chi'n adolygu ar gyfer arholiadau'r haf, roedd problemau mawr gyda chi!

Over time, the Abbey played host to many dignitaries and influential people. Prime Minister William Gladstone once made a speech from the terrace in 1887. After falling into disrepair, the Abbey was sold to the local council in 1919, which gave it to the University College, Swansea. In those earliest years in the 1920s, most subjects at the College were taught in the Abbey and its adjoining buildings.

The Abbey is now the administrative and managerial centre of the University, with what was once a series of bedrooms, studies and social rooms acting as offices and meeting rooms.

The Abbey's Grade II listed terrace dates from the era of Sarah Vivian, John Henry Vivian's wife (1830s). A talented gardener, much of her work is still in evidence today and continues to influence the restoration work conducted by the University.

One of the most noteworthy features of the Abbey terrace is the large magnolia tree. Through the decades, it was a student tradition that if the tree had begun to flower and you were not revising for your summer examinations, then you were in trouble!



Marino from Henry Singleton, ca. 1830s



Front entrance of Singleton Abbey, ca. 1920s

www.swansea.ac.uk/life-on-campus/our-grounds

© Prifysgol Abertawe

Lleoliad Arwyddion yr Abaty



P Edwards 2020

CYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL

POLISI A RHEOLI CYNALIADWYEDD

Mae gan y Brifysgol nifer o bolisiâu cynaliadwyedd sy'n amlygu ei hymrwymiad i gynaliadwyedd a rheoli amgylcheddol. Mae'r Polisi Cynaliadwyedd yn amlinellu ymrwymadau allweddol y Brifysgol fel rhan o'i System Rheoli Amgylcheddol ISO 14001 (2015), lle mae'r tiroedd yn gydran allweddol. Mae agweddau eraill sy'n cael eu crybwyll yn y Polisi Cynaliadwyedd yn cynnwys yr angen i:

- **Leiafu'r allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithrediadau'r Brifysgol.**
- **Lleihau'r defnydd o ddeunyddiau crai cychwynnol (yn cynnwys tanwydd ffosil, dŵr ac ynni).**
- **Hyrwyddo amrywiaeth biolegol ar safleoedd y mae'r Brifysgol yn eu rheoli neu'n berchen arnynt.**
- ***Lleiafu'r gwastraff a gynhyrchir a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi trwy gynyddu ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer.***
- **Hybu a chefnogi ymddygiad amgylcheddol gyfrifol ar draws cymuned y Brifysgol.**
- **Gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr a phartneriaid eraill i wella cynaliadwyedd y Brifysgol.**
- **Sicrhau bod y Brifysgol yn meithrin ei gallu i wrthsefyll peryglon newid yn yr hinsawdd.**

Mae Cynllun Rheoli Carbon y Brifysgol yn amlinellu ymrwymiad Prifysgol Abertawe i reoli a lleihau allyriadau carbon. Mae'r agenda lleihau carbon yn cael ei hadlewyrchu'n fwyfwy ym mholisi deddfwriaethol ac ariannol y DU, ac ar lefel bragmatig, mae angen rheoli allyriadau carbon i leihau costau gweithredol wrth i bris tanwydd a threthi cysylltiedig gynyddu, ac amddiffyn ein henw da sefydliadol. Yn 2019, datganodd y Brifysgol fod sefyllfa o Argyfwng Hinsawdd. Erbyn diwedd 2020, bydd y Brifysgol yn cyhoeddi ei Chynllun Argyfwng Hinsawdd cyntaf. Bydd hwn yn disodli'r Cynllun Rheoli Carbon presennol, a bydd hefyd yn cynnwys camau gweithredu addasu ar gyfer yr hinsawdd cyntaf y Brifysgol, a bydd rheoli tiroedd yn elfen allweddol o hyn. Yn ogystal, mae gan y Brifysgol Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n berthnasol i'r ddau gampws, sy'n amlinellu amrywiaeth o weithgareddau a gynlluniwyd i amddiffyn, gwella a hyrwyddo amrywiaeth fiolegol ar dir y Brifysgol.

Fel rhan o EMS, mae gan bob maes ei Gynllun Gweithredu Cynaliadwyedd ei hun (SAP). Mae camau gweithredu'r Tîm Tiroedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Cynaliadwyedd (SAP) Ystadau a Rheoli Cyfleusterau. Mae'r cynllun wedi asesu agweddau ac effeithiau sy'n gysylltiedig ag Ystadau a Rheoli Cyfleusterau, gan geisio rheoli, lliniaru a lleihau'r effeithiau mwyaf sylweddol. Mae agweddau ac effeithiau tiroedd a nodwyd yn ystod yr asesiad a'r lliniaru cysylltiedig yn cynnwys:

- **Y defnydd o ddŵr: Dim camau pellach, arfer gorau eisoes ar waith.**
- **Ymyrryd ag amrywiaeth: Dim camau pellach, arfer gorau eisoes ar waith.**
- **Defnyddio adnoddau (cemegion): Dim camau pellach, arfer gorau eisoes ar waith.**
- **Niwsans lleol (sŵn): Dim camau pellach, arfer gorau eisoes ar waith.**
- **Defnyddio adnoddau (arall) allyriadau GHG a sŵn (sŵn, allyriadau gweledol wrth ddechrau): Dim camau pellach, arfer gorau eisoes ar waith.**
- **Defnyddio adnoddau (arall) prynu a defnyddio deunyddiau crai (pridd): Cam gweithredu: Fformiwleiddio arferion compostio/asglodi etc. dan EMS yn unol â gofynion eithriadau ac er mwyn safoni ymarfer a lleihau'r risg o halogiad.**

Caiff y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd (SAP) ei adolygu o bryd i'w gilydd ar y cyd â Swyddog Amgylchedd Ystadau a Rheoli Cyfleusterau drwy amserlen archwilio fewnol ISO14001, y mae Gwasanaethau Gweithredol y Campws (COS) wedi'i chynnwys ynddo.

STRATEGAETH DDWR

Rhaid i adeiladau newydd a gwaith adnewyddu mawr gydymffurfio â gofynion llym yr Adran Ddŵr yn safonau BREEAM a rhaid gosod cyfleusterau datgelu gollyngiad dŵr clywedol, toiledau dwrlif deuol llif isel, tapiau llif isel, troethfeydd llif isel a chawodydd llif isel. Bydd casglu dŵr glaw er mwyn tynnu dŵr toiledau a dyfrio gerddi, ynghyd â'r potensial i ailgylchu dŵr llwyd a throethfeydd di-ddŵr bob amser yn cael eu hystyried ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

CLUDIANT A BEICIO

Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi buddsoddi er mwyn gwella isadeiledd y Campws ar gyfer cerdded a beicio i'r Campws ac oddi yno. Mae hyn wedi cynnwys rheseli beiciau a chawodydd hygyrch yn y rhan fwyaf o adeiladau. Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnig ei chynllun beicio i'r gwaith, lle mae'n bosib talu i logi beic ac offer diogelwch (goleuo) ar y ffordd. Yn ogystal, mae gennym sawl beic Santander sydd ar gael ar y ddau gampws y gellir eu llogi ar sail ad hoc neu drwy aelodaeth flynyddol. Mae 6 hyb ar gael rhwng Campws y Bae a'r Mwmbwls, ac un arall yn yr arfaeth.

Mae'r cysylltiadau bysus wedi'u gwella ar y campysau a rhyngddynt a threfnwyd tocynnau bysus ar gyfradd ostyngedig, a threfnwyd bod rhain ar gael am ddim i staff sy'n gweithio rhwng y campysau. Y gobaith yw y bydd y fenter hon yn annog myfyrwyr a staff i ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn amlach. Mae'r Brifysgol wedi llunio a hyrwyddo arolwg teithio i asesu arferion teithio myfyrwyr a staff, gyda'r nod o amlygu meysydd pryder a lle mae angen gweithredu.

GWASTRAFF TIR A GWNEUD GWRTAITH

Crëir cyn lleied o wastraff ag sy'n bosib drwy daenu gwellt ar y rhan fwyaf o'r lawntydd. Cyflwynwyd y broses hon 15 mlynedd yn ôl ac mae bron yn dileu'r angen i waredu toriadau gwair, wrth ddileu'r angen am chwynladdwyr penodol neu ffrwythlonwyr ar yr un pryd.

Caiff pob deunydd gwyrdd o faint addas ei brosesu drwy'r torrwr pren ac yna defnyddir y sglodion fel gwellt o amgylch gwelyau llwyni sefydledig i gydbwyso'r angen am chwynnu a dyfrio. Hefyd, defnyddir gwrtaith potio a ddefnyddiwyd eisoes, llwydni dail a deunydd wedi'i gompostio hefyd fel deunydd gwella pridd cyn ac ar ôl plannu.

Defnyddir chwynladdwyr cyn lleied â phosib drwy ddefnyddio llwydni dail a sglodion pren fel gwellt ac atalydd chwyn a chynorthwyo wrth ddefnyddio glyffosad pydradwy 'wedi'i dargedu' fel profiotig cyffredinol ar gynlluniau plannu mwy.

Gwneir gwrtaith ar raddfa fach wrth ymyl 'Prosiect Tyfu'r Trawstiau' lle caiff croen ffrwythau a llysiau eu compostio i'w defnyddio yn y gwelyau trawst. Mae lleoliadau arlwy ar y campws hefyd yn darparu deunyddiau y gellir eu compostio, megis gwaddod coffi a chwpanau coffi biogddiraddadwy.

RHEOLI GWASTRAFF SAFLEOEDD ADEILADU

Nod y Brifysgol yw lleihau cyhyd â phosib yr effaith amgylcheddol a achosir gan waith adeiladu. Bydd timoedd prosiect yn ystyried ffyrdd o leihau gwastraff adeiladu o ddechrau'r prosiect tan ei gwblhau, drwy'r briff dylunio, y deunydd a ddewisir, technegau adeiladu a dulliau gweithredu.

AILGYLCHU

Caiff gwastraff ei wahanu a'i ailgylchu cymaint â phosib. Mae sgipiau ar wahân i fetel, pren a broseswyd, rwbel a gwastraff cyffredinol. Fodd bynnag, ymdrinnir â gwastraff arall ar wahân, megis gwastraff olew, hen fatris, hen boteli nwy, cardbord, hen gynhwyswyr cemegol ac offer trydanol/electronig. Mae biniau ailgylchu ar y Campws wedi'u gwneud yn amlwg o amgylch y safle i sicrhau y caiff gwastraff ei wahanu i'w ffrydiau gwastraff priodol.

RHEOLI TIROEDD CYNALIADWY – PLALADDWYR A PHRYFLEIDDIAD

Defnyddir pryfleiddiaid gan ddarparwr gwasanaeth allanol i reoli plâu niwsans megis cacwn. Mae defnyddwyr Tai Gwydr yr Ardd Fotaneg yn defnyddio rheolaeth fiolegol.

FFWYTHLONWYR

Ni ddefnyddir ffrwythlonwyr artiffisial ar y lawntydd. Ers blynyddoedd lawer, mae unrhyw ffrwythlonwyr a brynwyd wedi bod o natur organig, megis gwymon ar ffurf hylif a "physgod, gwaed ac esgyrn".

CHWYNLADDWYR

Defnyddir chwynladdwyr cyn lleied â phosib drwy ddefnyddio llwydni dail a sgldion pren fel gwellt ac atalydd chwynau. Hefyd, mae torri planhigion ar y ffyrdd mewn ffordd fecanegol yn rheolaidd wedi arwain at leihad sylweddol yn nifer y chwyn wrth ymyl y ffordd.

MAWN

Dim ond compost di-fawn sy'n cael ei ddefnyddio erbyn hyn at ddibenion atgynhyrchu a phlannu mewn potiau mwy.

CYNHYRCHU BIO-FAS

Ar hyn o bryd, ni chrëir unrhyw fio-màs at ddibenion creu ynni adnewyddadwy ar Gampws Singleton. Fodd bynnag, caiff astudiaeth ddichonoldeb ei chwblhau i asesu ac ymchwilio i'r adnoddau bio-màs posib sydd ar gael a'r ffyrdd o reoli hyn yn briodol.

TREFTADAETH A CHADWRAETH

DATBLYGU CORIDOR BYWYD GWYLLT

Yn ystod y broses o adeiladu Sefydliad y Gwyddorau Bywyd, gwarchodwyd coridorau ystlumod a bywyd gwyllt. Ar ôl ymgynghori â grŵp ystlumod lleol, bydd llinellau hedfan ystlumod presennol yn parhau i ddatblygu a chysylltu coridorau bywyd gwyllt ar Gampws Singleton i sicrhau bod mynediad heb rwystrau i fywyd gwyllt sy'n byw yn ein campws neu'n teithio drwyddo. Mae tystiolaeth o lwyddiant yr ymagwedd hon ar gael ym mhoblogrwydd y 'daith ystlumod' sydd wedi bod yn hynod boblogaidd.

GORCHMYNION CADW COED

Nid oes unrhyw Orchmynion Cadw Coed (TPO) ar Gampws Singleton ar hyn o bryd. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod nifer o rywogaethau cynhenid yn cael eu cadw ar gyfer y dyfodol, mae'r Brifysgol yn dathlu ei chanmlwyddiant drwy blannu 25 coeden dderw ar Gampws Singleton a 25 arall ar Gampws y Bae. Mae Campws Singleton mewn parcdir ac mae ei hen goed derw yn rhan annatod o'i gymeriad. Nid oes coeden arall sy'n cynnal yr un amrywiaeth bywyd ac nid oes yr un sydd mor bwysig i'n diwylliant â'r dderwen mes di-goes, *Quercus petraea*. Gwnaeth plannu proffwydol y coed hyn fwy na 150 mlynedd yn ôl gan Ystâd Vivian roi i ni'r esiamplau trawiadol rydyn ni'n eu mwynhau heddiw. Yn anffodus, oherwydd eu bod yn hen iawn mae llawer o'r coed derw hyn yn dechrau dirywio ac er y byddant yn cynnig cartref i amrywiaeth helaeth o fywyd gwyllt a llawer o foddhad i bobl am ddegawdau i ddod, ni fyddant yn para am byth, felly pan fydd y Brifysgol yn dathlu ei hail ganmlwyddiant, mae'n annhebygol iawn y bydd llawer ohonyn nhw ar ôl. Ni ellir plannu coed newydd i gymryd lle coed hynafol yn y tymor byr; bydd coed derw a blannir heddiw'n cymryd o leiaf 100 o flynyddoedd i gyrraedd eu llawn dwf. Er y plannwyd llawer o goed ar y ddau gampws yn ddiweddar, a bydd y rhain yn darparu manteision amrywiol i'r amgylchedd, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn rhywogaethau sy'n byw am gyfnod cymharol fyr a byddant wedi hen fynd cyn y coed derw.

Bydd coed coffa yn cyrraedd fel rhywogaethau sydd wedi tyfu mewn cynhwysion, i roi'r dechrau gorau posib iddynt, ac yna cânt eu plannu yn ystod y seremoni swyddogol gan yr unigolion sy'n cael eu dathlu neu ar ôl hynny gan y tîm Tiroedd. Caiff y coed sy'n weddill eu plannu mewn cydweithrediad ag ymgyrch *Myfyrwyr dros Goed Undeb Cenedlaethol* y Myfyrwyr a Siarter Goed Coed Cadw i gyflawni'r prosiect gyda help gwirfoddolwyr staff a myfyrwyr.

Bydd Coed Cadw yn darparu'r coed fel rhan o'i brosiect Coed ar gyfer y Gymuned, ond os na fydd y coed hyn am ddim ar gael, bydd cyfle i unigolion a thimoedd yng nghymuned y Brifysgol noddi coeden, a hyd yn oed ei phlannu'n bersonol os byddant yn dymuno. Y Tîm Tiroedd fydd yn gofalu am y coed i ddechrau, ac yn eu cynnal ar gyfer y dyfodol. I sicrhau bod lleoliadau ar gyfer coed coffa yn y dyfodol, bydd yr holl waith datblygu ar y campws yn cynnwys lleoliadau a bennwyd yn briodol ar gyfer plannu hir dymor a bydd prif gynlluniau'r campws yn y dyfodol yn cynnwys ardaloedd yn y strategaeth tirlunio.

Dylid nodi mai nad dyma'r unig blannu coed a fydd yn cael ei wneud ar draws y ddau gampws oherwydd bod arfer da yn golygu bod angen amrywiaeth o rywogaethau i greu amgylchedd bioamrywiol a gwydn, a byddwn yn parhau i'w plannu fel y maent ar hyn o bryd.

Lleoliadau Derw Canmlwyddiant Abertawe.



Ben Sampson 2019

CYMUNED A MARCHNATA

MYNEDIAD A CHYFRANOGIAD CYMUNEDOL

Mae Campws Singleton yn denu amrywiaeth eang o ddefnyddwyr i'r ardal drwy gydol y flwyddyn, o fyfyrwyr ac aelodau o staff i'r gymuned leol ac ymwelwyr. Er bod eu rhesymau am ymweld â'r Campws yn amrywio, gwneir pob ymdrech i gynnig ymdeimlad croesawgar â phwyslais ar y gymuned. Mae diogelwch a boddhad defnyddwyr yn hollbwysig a chaiff eu gwella ar bob cyfle. Mae cyflwr a safon yr holl fannau gwyrdd amrywiol ar diroedd y Brifysgol yn hynod bwysig. Mae'r Brifysgol yn cydnabod y rôl bwysig mae'n ei chwarae fel rhan o'r gymuned, gan weithio gyda sefydliadau a arweinir gan wirfoddolwyr, megis Discovery, ac mae'n parhau i fod yn ymrwymedig i greu campws bywiog, iach ac yn bennaf oll, groesawgar. Mae gwaith ffilmio'r Tîm Tiroedd yn mynd i gael ei ychwanegu at 'Daith Rithwir' o amgylch y Tiroedd ar y wefan, nid yn unig i godi proffil tiroedd y Brifysgol ond hefyd y gwaith gwych a wneir gan y Tîm Tiroedd.

THEATR TALIESIN

Lleolir Theatr Taliesin yng nghanol Campws Singleton ac mae'n rhan boblogaidd o'r Brifysgol a'r gymuned leol. Mae Taliesin wedi dod yn ganolbwynt sy'n dod â defnyddwyr Campws Singleton ynghyd mewn ffordd groesawgar a chynhwysol.

PROSIECT 'TYFU'R' TRAWSTIAU'

Fel y nodwyd uchod, mae prosiect garddwriaethol lle gall myfyrwyr a staff ddatblygu eu sgiliau drwy dyfu eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain. Mae prosiect 'Y Trawstiau' wedi'i arwain gan aelodau o staff y Brifysgol ac fe'i cynhelir ar sail wirfoddol, gan ddibynnu ar frwdfrydedd ac ymrwymiad i'w wneud yn bosib.

DIWRNODAU GWEITHGAREDDAU I YSGOLION CYNRADD AR Y SAFLE

Mae ymweliadau ysgolion lleol yn parhau i gael eu cynllunio i roi cyfle i blant ysgol gael profiad garddio ymarferol, o blannu hadau i greu blychau adar a 'gwestai trychfilod'.

PARTERIAETHAU

Mae Tiroedd Gwasanaethau Campws y Prifysgolion wedi bod yn cydweithio â'r Tîm Tiroedd yn y blynyddoedd diwethaf. Er bod yr adrannau'n cynnig gwasanaethau gwahanol, maent yn cefnogi ei gilydd yn aml, yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur o'r flwyddyn.

ACHREDIADAU

Mae gwaith i annog bywyd gwyllt i ffynnu ar y campws wedi ennill dyfarniad statws Gwenyn-gyfeillgar i'r Brifysgol. Caru Gwenyn yw menter gan Lywodraeth Cymru sydd â'r nod o annog pobl i helpu pryfed peillio megis gwenyn a gloënnod. Rydym yn falch iawn o fod y Brifysgol sy'n Caru Gwenyn gyntaf yng Nghymru.

ISO 20121

Enillodd Prifysgol Abertawe wobwr BLATINWM Eco-Campus a safon ryngwladol ISO 14001 am ei systemau rheoli amgylcheddol. Abertawe yw'r Brifysgol gyntaf yng Nghymru i dderbyn y dyfarniad Platinwm uchaf, a'r trydydd sefydliad ar ddeg yn unig yn y DU gyfan. Mae hyn yn helpu'r Brifysgol gyda'i chydymffurfiad cyfreithiol, ei sgôr Cyngrhair Gwyrdd a'i Strategaeth Gynaliadwyedd ac mae'n cynrychioli'r safon ryngwladol gyntaf i'r Brifysgol ei hennill ar draws pob Coleg a swyddogaeth weinyddol. Eco-Campus yw'r System Rheoli Amgylcheddol (EMS) genedlaethol fwyaf blaenllaw a'r cynllun gwobrau ar gyfer y sectorau addysg bellach ac uwch. Mae'r cynllun yn galluogi prifysgolion i nodi, gwerthuso, rheoli a gwella eu perfformiad a'u harferion amgylcheddol mewn ffordd systematig. Bellach, mae Prifysgol Abertawe yn gobeithio bod y brifysgol gyntaf i gyrraedd ISO 20121.

CYNLLUN GWOBROWYO CYNALIADWYEDD A LLES



© Prifysgol Abertawe

Rhaglen ymgysylltu â staff yw SWell sy'n gwobrowyo staff ym Mhrifysgol Abertawe am eu gweithredoedd o ran cynaliadwyedd a lles yn y gwaith. Pan fyddant yn cofrestru, gellir cwblhau neu fynd i ddigwyddiadau i ennill pwyntiau 'Swell', sy'n helpu staff i ddringo'r tabl o arweinwyr i ennill gwobrau.

GWOBWR SAFON LECHYD CORFFORAETHOL

Y Safon Iechyd Corfforaethol, a gynhelir gan Lywodraeth Cymru, yw'r nod ansawdd ar gyfer hyrwyddo iechyd yn y gweithle yng Nghymru. Caiff ei chyflwyno yng nghategoriâu efydd, arian, aur a phlatinwm i sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector sy'n rhoi arferion ar waith i hyrwyddo iechyd a lles eu staff. Mae tiroedd y campws yn chwarae rôl bwysig yn hyn o beth wrth annog staff i dreulio amser yn yr amgylchedd awyr agored sy'n hanfodol ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol. Mae staff y Brifysgol wedi mabwysiadu'r ethos hwn drwy anelu at wneud eu gweithleoedd yn wyrddach drwy weithio ar themâu gwahanol, megis dŵr, ynni, gwastraff ac ailgylchu, caffael, teithio, iechyd a lles, bioamrywiaeth a chymuned.

Yn 2019, cyflwynwyd Gwobr Arian Iechyd Corfforaethol uchel ei pharch i Brifysgol Abertawe am ei hymagwedd ofalgar a chyfannol at iechyd staff a darpariaeth les.

GWOBR ABERTAWE YN EI BLODAU

Cymerodd Prifysgol Abertawe ran yn Abertawe yn ei Blodau am y tro cyntaf yn 2009 ac enillodd wobwr Efydd yn y categori ymgeisydd newydd gorau. Ers hynny, mae wedi bod yn gystadleuydd rheolaidd sydd â'r nod o annog busnesau Abertawe a'r gymuned leol i fuddsoddi mewn arddangosfeydd o flodau er mwyn gwneud Abertawe'n lle prydferthach i'w phreswylwyr a'i hymwelwyr. Yn 2016, enillodd Prifysgol Abertawe wobwr Aur unwaith eto am ei harddangosfeydd o flodau ar Gampws Singleton a dyfarnwyd 'Canmoliaeth Uchel' iddi yn 2017. Daeth y gystadleuaeth i ben yn 2018 pan dynnodd Cyngor Abertawe y nawdd yn ôl ar ei gyfer. Fodd bynnag, diolch i wirfoddolwyr lleol, mae wedi dychwelyd felly bydd y Brifysgol unwaith yn rhagor yn anelu at ennill rhagor o wobrau.

Gwobr Abertawe yn ei Blodau



© Prifysgol Abertawe

Y Tîm Tiroedd



© Prifysgol Abertawe

Enillydd y Faner Werdd – Campws Singleton 2020



© Prifysgol Abertawe

PROSIECTAU YMGYSYLLTU

GWRIRFODDOLI

Mae gwirfoddoli'n hanfodol i gymuned a bywyd y Brifysgol ac mae Campws Singleton yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i wirfoddoli. Gall gwirfoddolwyr sy'n fyfyrwyr wneud sesiynau garddio wythnosol o amgylch Campws y Brifysgol yn ogystal â'r 'gwelyau Trawstiau' newydd.

Ym mis Medi 2019, cydnabuwyd pwysigrwydd hanesyddol Abaty Singleton a'r Ardd Fotaneg ar Gampws Singleton wrth iddynt gael eu cynnwys ar gofrestr statudol parciau a gerddi Cymru. I gynorthwyo gyda gwaith cynnal yr ardaloedd hyn yn y Brifysgol, roedd y Brifysgol yn ddigon ffodus i gael cymorth grŵp o wirfoddolwyr cyn-fyfyrwyr brwdfrydig a gwybodus iawn. Mae eu gwaith caled parhaus wedi arwain at gynydd gwych wrth adfer ac ailfywiogi gerddi sydd wedi cael eu llywio gan hanes ffisegol, cymdeithasol a diwylliannol hyd yma ac a fydd yn parhau i lywio eu dyfodol. Mae gan y Brifysgol gyfoeth o asedau sy'n haeddu cael eu hyrwyddo, eu gwarchod a'u datblygu i rannu gyda myfyrwyr, staff, y cyhoedd a gwirfoddolwyr. Yn anffodus, o ganlyniad i bandemig Covid-19, mae gwirfoddoli wedi'i oedi am y tro. Fodd bynnag, bu'n bosib cynnal sawl taith gerdded llwybr natur cyn mis Mawrth a hyd yn oed yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud, mae gweithgareddau ar-lein wedi cael eu cynnal, er enghraifft 'Backyard Bioblitz', 'Burst of Birdsong' a chreu potiau planhigion sy'n hunan-ddyfrio o boteli plastig wedi'u huwchgylchu.

Poster ar gyfer Diwrnodau Gwirfoddolwyr Diweddar



THE BOTANICAL GARDEN

Set in the grounds of Singleton Park Campus, the listed Botanical Garden is home to rare and unusual botanical specimens as well as resident foxes, bats, hedgehogs and even an occasional otter!

We are rejuvenating this listed site by removing invasive species, creating new pathways and restoring streams and cascades.

HELP US RESTORE THE GARDENS TO THEIR FORMER GLORY!

WHEN?
Every Wednesday between 1pm and 4pm

WHERE?
Meet at the Oracle in the Botanical Gardens

WHAT DO I NEED?
Wear old clothes and sturdy footwear - dress for the weather

To find out more email:
p.d.edwards@swansea.ac.uk





THE SINGLETON PARK ORNAMENTAL GARDEN

The Singleton Park Ornamental Garden is located to the north-west of the Singleton Park Campus within Singleton Park - one of Wales' oldest municipal parks.

WE NEED YOU TO HELP US RESTORE AND MAINTAIN THIS BEAUTIFUL GARDEN.

Working with local community groups, opportunities for Swansea University volunteers will include:

- Bulb planting
- Ground cover planting
- Soil cultivation
- Weeding
- Light pruning
- Invasive species control

HOW DO I GET INVOLVED?
To find out more email:
discovery@swansea.ac.uk

BENEFITS OF VOLUNTEERING

- Take a break from your studies or work
- Enjoy working outside in the fresh air
- Learn some new skills
- Make new friends
- Enhance your CV
- Contribute to the local community



VOLUNTEER

with Swansea University's Award Winning Grounds Team

www.swansea.ac.uk
search Grounds Management



P Edwards 2019

ASTUDIAETH ACHOS: 'SESIYNAU RHAGFLAS' PROFIADO'R TIROEDD

Yn hwyr ym mis Ionawr 2019, dechreuodd myfyrwyr gyfres o 'Sesiynau Rhagflas Profiad o'r Tiroedd' er mwyn bod yn rhan o'r tasgau gofynnol wrth gynnal a gwella amgylchedd allanol Campws Singleton. Y prosiect bach cyntaf oedd creu cyfres o 'westai trychfilod' yng nghoetir yr Ardd Fotaneg. Er mwyn adeiladu'r gwestai trychfilod, defnyddiwyd deunyddiau megis paledi pren a thoriadau planhigion sy'n deillio o bob rhan o'r campws, gan eu 'huwchgylchu'.

Deunydd sy'n barod i'w ddefnyddio



Dave Tucker 2019

Gwesty trychfilod wedi'i gwblhau



Dave Tucker 2019

Cynhaliwyd 'Diwrnod Datblygu Tîm' i staff y Brifysgol yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a bu hyn yn llwyddiant mawr. 'Mabwysiadodd' un tîm wely blodau i ofalu amdano a'i fwynhau am flynyddoedd i ddod.

CYHOEDDIADAU, CANLLAWIAU A'R WEFAN

Mae amrywiaeth eang o gyhoeddiadau a chanllawiau ar gael i ddefnyddwyr Campws Singleton. Mae'r rhan fwyaf o'r dogfennau hyn hefyd ar gael ar wefan y Brifysgol, megis: sustainability@abertawe.ac.uk wildlife@abertawe.ac.uk

Yn 2020, cafodd tudalennau gwe tiroedd y Brifysgol eu hailwampio'n llwyr. Gellir eu cyrchu yn <https://www.swansea.ac.uk/life-on-campus/our-grounds/>

Gellir dod o hyd i gopiâu o'r cyhoeddiadau a'r canllawiau, gan gynnwys mapiau a thaflenni, am ddim mewn sawl lleoliad ar draws y safle, gan gynnwys derbynfeydd adrannol ac adeiladau eraill sy'n croesawu'r cyhoedd. Mae hyn yn atgyfnerthu arwyddion ar y safle i sicrhau y bydd defnyddwyr ac ymwelwyr yn teimlo bod croeso cynnes iddynt a'u bod yn gallu dod o hyd i'w ffordd ar draws y Campws mewn ffordd ddiogel a hamddenol.

Yn ogystal, defnyddir gwefan y Brifysgol fel dull marchnata allweddol i hyrwyddo digwyddiadau a gweithgareddau i aelodau'r Brifysgol a'r gymuned gyfagos. Er enghraifft, yn ogystal â phrif wefan y Brifysgol, mae tudalennau gwe Theatr Taliesin a'r Ganolfan Chwaraeon hefyd yn cynnwys adran newyddion a digwyddiadau sy'n amlygu cyfleoedd i gymryd rhan. Yn ogystal, mae'r wefan Cynaliadwyedd yn cynnig gwybodaeth am yr ymgyrchoedd a'r digwyddiadau diweddaraf, sy'n uniongyrchol berthnasol i ddefnyddwyr tiroedd y Campws.

CYNLLUN GWEITHREDU CAMPWS SINGLETON 2021 - 2022

CYFLWYNIAD

Seiliwyd y prosiectau tiroedd uchod ar feini prawf y Faner Werdd i sicrhau y gellir eu cymhwyso'n ddichonol ac yn realistig. Mae'r gweithredoedd hyn yn cynnwys prosiectau adeiladu presennol ar y Campws sydd yn yr arfaeth. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi cael ei ddatblygu i gynnwys y cyfnod rhwng 2021 a 2022 yn y man cyntaf gan fod adrannau'r Brifysgol yn destun newidiadau sefydliadol mawr o ganlyniad i bandemig presennol a pharhaus Covid-19 yn bennaf. Fodd bynnag, bydd y cynllun gweithredu yn parhau i gael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod cydnawsedd â sefydliadau a deddfwriaeth allanol a chyfarwyddiadau'r Brifysgol. Caiff hyn ei gyflawni drwy gyfarfodydd i amlinellu gofynion a dulliau'r dyfodol a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â Phrif Gynlluniau Cyffredinol y Brifysgol.



Swansea University Prifysgol Abertawe

Estates and Facilities Management
Ystadau a Rheoli Cyfleusterau